

PWYLLGOR PENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2021

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Cynghorydd Bob Parry OBE FRAGS (Is-gadeirydd) Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws ac A M Jones
WRTH LAW:	Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, Rheolwr Adnoddau Dynol (CW), Swyddog Adnoddau Dynol (NH), Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Cynghorydd R Meirion Jones
HEFYD YN BRESENNOL:	Neb arall

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Dim.

2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

4 PENODIADAU STAFF

Prif Weithredwr

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr, 2021 y lluniwyd rhestr fer ac wedi hynny y cyflawnwyd proses recriwtio pum cam yn unol â'r hyn a gytunwyd gan y Pwyllgor Penodiadau, sef:-

- Profion seicometrig a chyfweliad;
- Asesiad MTQ48 mewn perthynas â chryfder a gwydnwch meddyliol.
- Asesiad senario i brofi lled a dyfnder gwybodaeth mewn perthynas â'r swydd.

- Cyfweiliad proffesiynol â Phrif Weithredwr y WLGA a chyn Brif Weithredwr Cyngor Ceredigion, wedi'i hwyluso gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid;
- Cyfweiliad ffurfiol gyda'r Pwyllgor Penodiadau.

Yn dilyn y cyfweiliad ffurfiol, **PENDERFYNODD y Pwyllgor Penodiadau benodi Mr Dylan Williams i'r swydd Prif Weithredwr.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD**